Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **20 Tachwedd 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies MS/AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles ar y pryd i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr offeryn uchod gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid y Farwnes Sue Hayman, wrth arfer y pwerau a roddwyd o dan adrannau 14(1), (2), (3), (4)(a), (b), (e) a (7), 15(1) a 20(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae Rheoliadau 2024 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar y Model Gweithredu Targed y Ffin rhwng y tair llywodraeth ym Mhrydain Fawr i gyflwyno cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforiwyd i Brydain Fawr; i ddiogelu bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi pwrpas, ac effaith Rheoliadau 2024 ar gael yma:

[The Official Controls (Amendment) Regulations 2024].

Mae'r pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cael eu defnyddio i ddiwygio pwerau sy'n bodoli eisoes yn Rheoliad (UE) 2017/625 ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol") fel y gellir gwneud offerynnau pellach yn ddiweddarach. Nid yw'r rhan fwyaf o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2024 yn

cael effaith polisi nes bod y pwerau diwygiedig yn cael eu harfer yn ddiweddarach. Bydd y polisïau canlynol, fodd bynnag, yn cael effaith o'r dyddiad dod i rym:

• Caniatáu i Arolygwyr Iechyd Planhigion gynnal profion diagnostig yn y Safle Rheoli Ffin (unwaith yn weithredol) yn hytrach na phrofi mewn labordai swyddogol.

• Darparu y gall pwerau gorfodi ganiatáu adennill cost dyledion a chasgliadau lle nad yw ffioedd wedi'u talu

Mae Rheoliadau 2024 yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno agweddau pellach ar y Model Gweithredu Targed y Ffin gan gynnwys y cynlluniau Masnachwr Dibynadwy ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a Statws Gweithredwr Awdurdodedig ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion.

Mae Rheoliadau 2024 yn dirymu ac yn disodli darpariaethau yn y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol a deddfwriaeth berthnasol arall i ddarparu sail ddeddfwriaethol hirdymor i'r Model Gweithredu Targed y Ffin y tu hwnt i ddibynnu ar y Cyfnod Llwyfannu Trosiannol ar gyfer nwyddau perthnasol.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt Llywodraeth y DU ar bioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw Rheoliadau 2024 yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod mewn newid polisi yn y dyfodol a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydlynu traws y DU, a chysondeb.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan nad yw'r rhan fwyaf o'r newidiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn gweithredu unrhyw bolisi yn uniongyrchol, ond, yn hytrach, sicrhau bod y pwerau deddfu presennol yn cael eu diweddaru i alluogi'r polisïau sy'n sail i'r Model Gweithredu Targed y Ffin gael eu cyflwyno yn y tymor hwy. Bydd offerynnau pellach yn cael eu cyflwyno gan arfer y pwerau diwygiedig.